Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.17 Yr awdurdod diogelu annibynnol

Cynllun Gwirio a Gwahardd – y newyddion diweddaraf

Efallai y byddwch yn ymwybodol erbyn hyn fod cam cofrestru'r Awdurdod Diogelu Annibynnol o'r Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd wedi'i atal er mwyn caniatáu i'r Llywodraeth ailfodelu'r cynllun gyda'r nod o gael un 'cymesur sy'n dangos synnwyr cyffredin' unwaith eto. **O ganlyniad, mae cam cofrestru'r Awdurdod Diogelu Annibynnol o'r cynllun ar stop, ac ni chafodd ei lansio ar 26 Gorffennaf 2010.**

Tra bydd y gofynion terfynol o ran unigolion a ddylai gofrestru gyda'r cynllun yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad, mae'n bwysig cofio bod y gofynion a gyflwynwyd ym mis Hydref 2009 fel rhan o gam cyntaf y Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd yn dal mewn grym.

Mae'r trefniadau canlynol yn bodoli eisoes dan y Cynllun, a byddant yn parhau:

- er mis Ionawr 2009, mae'r Awdurdod Diogelu Annibynnol wedi bod yn gwneud penderfyniadau annibynnol ynglŷn â gwahardd. Bydd yn parhau i gadw dwy restr sy'n cael eu diweddaru'n gyson, un ohonynt yn cynnwys y rheini sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant, a'r llall yn cynnwys y rheini sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion agored i niwed;
- bydd y gofynion presennol yn ymwneud ag archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn parhau, a chaiff y rheini sy'n gymwys i gael yr archwiliadau hynny barhau i wneud cais amdanynt; ac
- mae'n dal yn ddyletswydd gyfreithiol ar gyflogwyr i gyfeirio gwybodaeth at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol os ydynt wedi symud neu wedi diswyddo unigolyn oherwydd ei fod wedi peri niwed neu oherwydd bod perygl i'r unigolyn hwnnw niweidio aelod o grŵp agored i niwed.

A ddylwn i gynnal archwiliad Datgelu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol?

Gallwch gynnal archwiliad Datgelu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar yr unigolion hynny sy'n gweithio neu sy'n gwirfoddoli mewn gweithgaredd rheoledig.

Beth yw gweithgaredd rheoledig?

Dysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu, goruchwylio neu ddarparu cyngor ac arweiniad neu yrru cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer cludo plant neu unigolion

agored i niwed i'r man lle cynhelir y gweithgaredd yn aml unwaith yr **wythnos** neu fwy neu'n ddwys. Darparu unrhyw fath o ofal iechyd neu driniaeth lle y cynhelir y gweithgaredd unwaith y **mis** neu fwy neu'n ddwys.

Lle y cyflawnir y gwaith mewn eiddo gofal plant megis meithrinfa ddydd, neu gartref preswyl i blant, neu ysgol, neu ysbyty i blant, neu ganolfan i blant neu gartref gofal i oedolion, neu sefydliad Addysg Bellach sy'n bennaf, neu'n gyfan gwbl, ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed lle y cynhelir y gweithgaredd yn aml unwaith yr **wythnos** neu fwy yn **yr un lleoliad** neu'n ddwys.

Swydd benodol, megis llywodraethwr ysgol, ymddiriedolwr elusen i blant neu ymddiriedolwr elusen i oedolion agored i niwed neu eraill sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 4 y Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed.

* Mae dwys yn golygu 4 diwrnod mewn 1 mis neu fwy, neu dros nos

Beth yw'r ddyletswydd i gyfeirio?

Bydd yn ddyletswydd ar unrhyw sefydliad sy'n darparu gweithgaredd rheoledig i gyfeirio gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cynllun lle mae pryder ynghylch niwed neu berygl o niwed i blant neu i oedolion agored i niwed. Mae gan dimau amddiffyn plant/oedolion awdurdodau lleol; cyrff proffesiynol a chyrff goruchwylio sydd wedi'u henwi yn Neddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006 hefyd ddyletswydd i gyfeirio.

A oes yna unrhyw beth arall y dylwn i wybod?

Daeth dyletswyddau a mesurau diogelu allweddol i rym ym mis Hydref 2009:

1. Ni ddylech gyflogi mewn gweithgaredd rheoledig, neu ddefnyddio fel gwirfoddolwr, rhywun sydd wedi'i wahardd, a chithau'n gwybod hynny.
2. Os ydych wedi'ch gwahardd rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau rheoledig â phlant neu oedolion agored i niwed, ni ddylech weithio, na cheisio gweithio, mewn gweithgaredd rheoledig gyda'r grŵp hwnnw.

Ac yn olaf

Mae cwmpas y broses ailfodelu – a gydlynir gan y Swyddfa Gartref mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd a'r Adran Addysg – wrthi'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd.

Nid yw'n glir eto sut y bydd model newydd y Llywodraeth ar gyfer y Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd yn effeithio ar gofrestru gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol yn y dyfodol. Pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael am hyn, byddwn yn ei phasio ymlaen atoch.

Mae'n bosibl y ceir achosion pan na fydd gweithgarwch wedi'i ddiffinio fel gweithgarwch rheoledig ond ei fod yn dal yn gymwys ar gyfer archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Wedi ei ddiweddaru:05/08/2011

Gwybodaeth bellach

WCVA CRU
Ffôn: 0800 0197 391
Ffacs: 01745 357593
cru@wcva.org.uk
www.wcva-cru.org.uk

Awdurdod Diogelu Annibynnol
www.isa-gov.org.uk

Swyddfa Cofnodion Troseddol www.crb.gov.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 enquiries@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:05/08/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk